

Pecyn Cymorth i Ysgolion

Ailgysylltwch â'ch

PLANED CHI

yr Awr Ddaear hon



24 MAWRTH 2018 8:30PM

EARTH HOUR
2018



wwf.org.uk/earthhour

60+
EARTH HOUR

RYDYN NI I GYD YN GYSYLLTIEDIG

Rydyn ni i gyd yn rhannu un cartref hardd, y Ddaear, sy'n rhoi i ni bopeth mae arnon ni ei angen: y dŵr rydyn ni'n ei yfed, y bwyd rydyn ni'n ei fwyta, y deunyddiau i adeiladu ein cartrefi a'r ynni i bweru ein bywydau. Ond heddiw mae ein planed yn wynebu dyfodol ansicr iawn. Mae gan eich disgyblion chi ran hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau byd mwy cynaliadwy. Trwy gymryd rhan yn Awr Ddaear WWF, gallan nhw wneud addewid i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Am **8.30pm** ar nos **Sadwrn 24 Mawrth**, bydd cannoedd o filiynau o bobl ledled y byd yn diffodd eu goleuadau ac yn dod ynghyd i ddathlu Awr Ddaear. Mae'n amser i ddangos ein bod yn malio am y blaned ac yn ffordd symbolaidd o'n hatgoffa bod dyfodol ein planed yn y fantol.

Ond mae Awr Ddaear hefyd yn dangos y gallwn ni i gyd wneud rhywbeth i siapio'r dyfodol. Wrth iddyn nhw ymuno â gweithgareddau ar gyfer Awr Ddaear, bydd eich disgyblion yn ymuno â'r mudiad llawr gwlad mwyaf yn y byd dros yr amgylchedd. Efallai mai awr yn unig mae'r digwyddiad mawr yn para, ond bydd pobl ifanc yn cymryd camau a fydd yn rhoi dyfodol disgleiriach i'n planed. Pan fo miliynau'n gweithredu gyda'i gilydd, gall newid ddigwydd o ddifrif.

Gwnewch addewid i'r blaned ac ymunwch â ni ar gyfer Awr Ddaear 2018. Gyda'n gilydd, gallwn newid y dyfodol.

UCHAFBWYNTIAU AWR DDAEAR 2017

Awr Ddaear y llynedd, ar ei degfed pen-blwydd, oedd y fwyaf erioed.



© WWF / NINA MUNN



© MAVERICK PHOTO AGENCY / CALLUM BENNETTS / WWF-UK



© WWF / SEWELL

Mewn sioe drawiadol o undod a gweithredu, ymunodd cannoedd o filiynau o bobl ledled y byd ag Awr Ddaear i ddathlu ein planed ac addo i'w gwarchod.

Cymerodd mwy na 187 o wledydd a thiriogaethau, ar draws saith cyfandir, ran yn Awr Ddaear. A diffoddodd mwy na 3,000 o adeiladau a strwythurau amlwg - o Dŷ Opera Sydney i Dŵr Eiffel, o Balas Buckingham i Gastell Caeredin, ac o faes chwarae Old Trafford ym Manceinion i Gastell Caerffili, eu goleuadau mewn sioe o undod er mwyn gwarchod ein planed.

Yn y Deyrnas Unedig dangosodd oddeutu 9 miliwn o bobl eu cefnogaeth i weithredu ar yr hinsawdd. Cymerodd mwy na 6,000 o ysgolion ran gan drefnu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer Awr Ddaear. Cymerodd ysgolion ran mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- diffodd goleuadau, offer trydanol, byrddau gwyn a sgriniau cyfrifiadur am awr yn ystod y dydd;
- helpu i lanhau traethau;
- gwneud posteri Awr Ddaear i'w harddangos yn yr ysgol;
- mwynhau diwrnod gwisgo i fyny;
- cynnal digwyddiad yn yr ysgol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a cholli cynefinoedd, gan wahodd y gymuned ehangach a'r wasg leol.

Eleni bydd hyd yn oed mwy o bobl yn achub ar y cyfle i wneud gwahaniaeth trwy ymuno ag Awr Ddaear. Yn ystod un awr, bydd miliynau o bobl ledled y byd yn cael eu hysbrydoli i gymryd rhagor o gamau ar ôl Awr Ddaear a gweithredu i warchod ein planed wych.

PAM DDYLEM NI FALIO AM Y NEWID YN YR HINSAWDD?

Rydyn ni'n wynebu'r her amgylcheddol fwyaf a welodd ein cenhedlaeth erioed. Ac rydyn ni'n gweld newid yn digwydd yn gyflymach nag a welsom erioed o'r blaen.

Mae bron 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddifodiant oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae eu cynefinoedd, o'n moroedd anhygoel i'n coedwigoedd syfrdanol, yn cael eu dinistrio. Llewpariaid eira, palod, rhinoserosiaid, eliffantod ac eirth gwynion yw rhai yn unig o'r anifeiliaid godidog sy'n rhannu ein byd ond a fydd efallai yn cael trafferth i oroesi'r newidiadau rydyn ni'n eu hachosi ar y blaned.

Dros y 150 mlynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi newid cydbwysedd ein planed trwy fyw y tu hwnt i'n modd. Rydyn ni wedi llosgi llawer iawn, iawn o danwydd ffosil (fel glo, olew a nwy), wedi magu poblogaethau enfawr o dda byw sy'n cynhyrchu methan, ac wedi torri i lawr darnau enfawr o goedwig a fyddai'n amsugno carbon deuocsid o'r aer yn naturiol.

Y newid yn yr hinsawdd yw'r rheswm mae WWF yn gweithio i ddylanwadu ar lywodraethau rhyngwladol i leihau allyriadau, cadw cynefinoedd hollbwysig a chynorthwyo gwledydd datblygol wrth iddyn nhw ymdopi â hinsawdd sy'n newid. Rydyn ni eisiau i bawb fyw mewn ffordd sy'n defnyddio llai o garbon trwy fentrau pob dydd fel adeiladau mwy ynni effeithlon, gwell systemau trafndiaeth, dietau cynaliadwy a helpu busnesau i leihau eu hallyriadau.



**MAE BRON 1 O BOB 6
RHYWOGAETH MEWN PERYGL
O DDIFODIANT OHERWYDD
Y NEWID YN YR HINSAWDD.**



GWARCHOD EIN RHYWOGAETHAU Rydyn ni eisoes yn gweld effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae patrymau tywydd naturiol yn newid, gyda digwyddiadau mwy eithafol fel llifogydd, tanau coedwigoedd neu sychdwr. Mae cynydau'n methu, ac mae cartrefi pobl o dan fygythiad wrth i lefelau'r moroedd godi. Mae rhai arbenigwyr yn credu y bydd y newid yn yr hinsawdd yn gorfodi 250 miliwn o bobl i symud o'u cartrefi a'u tiroedd erbyn 2050.

Ochr yn ochr â phobl, mae anifeiliaid yn wynebu bygythiadau enfawr oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Credir y gallai un o bob chwe rhywogaeth ddarfod oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Wrth inni edrych i'r dyfodol, rhaid inni gofio nad yw'r Ddaear yn eiddo i ni yn unig. Mae'n bosibl na fydd llawer o'r anifeiliaid mwyaf godidog sy'n rhannu ein byd yn goroesi'r newidiadau rydyn ni'n eu hachosi ar ein planed.



TEIGROD

Mae niferoedd teigrod gwyllt wedi gostwng mwy na 95% ers dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r codiad yn lefel y môr yn bygwth y gwernydd mangrof yn y


Sundarbans yn Bangladesh ac India, lle mae teigrod yn byw. Erbyn heddiw, mae cyn lleied â 3,900 o deigrod yn y gwyllt.



EIRTH GWYNION

Yr arth gwyn yw'r cigysydd mwyaf ar ein planed sy'n byw ar y tir. Mae'r Arctig wedi bod yn cynhesu ar gyfradd sydd oddeutu dwywaith y gyfradd

fyd-eang ers y 1980au. Wrth i iâ môr yr Arctig doddi, mae'r manau bridio a hela mae ar yr eirth eu hangen yn crebachu. Weithiau bydd rhaid i eirth nofio am hyd at 9 diwrnod i ddod o hyd i iâ môr.



PALOD

Mae llawer o rywogaethau adar yn methu addasu i newidiadau mewn patrymau tywydd ac argaeledd bwyd, gan arwain at 90% o ostyngiad yn

mhoblogaethau rhai adar. Erbyn hyn mae aderyn eiconig y pâl ar Restr Goch y Deyrnas Unedig o adar sydd yn y perygl mwyaf o ddfodiant. Yng ngogledd pell yr Alban, mae'r llymriaid mae'r palod yn eu bwyta'n mynd yn llawer prinnach, oherwydd y newid yn yr hinsawdd.



ELIFFANTOD

Mae oddeutu 90% o eliffantod Affrica wedi cael eu colli yn y ganrif ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y cânt eu hela am ifori. Gall eliffantod yfed hyd

at 225 o litrau o ddŵr croyw pob dydd, felly mae newidiadau mewn patrymau tywydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn golygu bod rhaid iddyn nhw deithio ymhellach i chwilio am ddŵr, gan symud y tu allan i'r ardaloedd lle maen nhw wedi'u gwarchod rhag potsrwy.



LLEWPARDIAID EIRA

Mae cynhesu byd-eang yn yr Himalaya yn digwydd tair gwaith yn gyflymach na'r cyfartaledd byd-eang. Wrth i'r tymheredd godi, mae'r

coedliniau'n symud yn uwch i fyny'r mynyddoedd. Mae cynefin y lleopard eira'n crebachu, ac mae'n mynd yn fwy anodd iddyn nhw ddal eu hysglyfaeth.



RHINOSEROSIAID ASIAIDD

Mae rhinoserosiaid unicorn mwyaf yn byw ar y glaswelltiroedd gorlifdirol yng ngogledd India a Nepal. Maen nhw'n dibynnu ar lawogydd y


monsŵn i adfywio'r llystyfiant maen nhw'n ei fwyta. Mae newidiadau mewn patrymau tywydd yn golygu bod y glaw yn llai dibynadwy, gan achosi sychdwr neu lifogydd.



CRWBANOD MÔR

Mae crwbanod môr yn sensitif iawn i newidiadau yn y tymheredd sy'n effeithio ar lwyddiant bridio. Mae rhyw y crwbanod yn dibynnu ar

dymheredd y tywod lle caiff eu hwyau eu dodwy. Mae tymheredd uwch yn cynhyrchu mwy o fenywod ac mae tymheredd is yn cynhyrchu mwy o wrywod. Gallai'r codiadau yn y tymheredd a ragwelir, sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, newid cymarebau rhyw yn y dyfodol gan beryglu poblogaethau crwbanod. Mae codiadau yn lefel y môr hefyd yn bygwth y traethau lle mae'r crwbanod yn nythu.



PENGWINIAID ADÉLIE

Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi lleihau'r gorchudd iâ môr yn yr Antartig oddeutu 40% ers y 1980au cynnar. Mae hyn yn effeithio ar fridio cril (anifeiliaid

bach tebyg i berdys) sy'n un o brif ffynonellau bwyd pengwiniad Adélie. Gallai poblogaethau pengwiniad Adélie gwmpo oddeutu 46% erbyn 2099 oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

GWEITHGAREDDAU YSTAFELL DDOSBARTH

Mae pobl ifanc heddiw yn hollbwysig i'r gwaith o warchod ein planed, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys digonedd o weithgareddau deniadol i'ch helpu i feithrin dealltwriaeth eich disgyblion o faterion amgylcheddol allweddol a'u hannog i'w gweld eu hunain fel rhan o fyd rhyng-gysylltiedig, gyda rhan allweddol i'w chwarae yn y gwaith o adeiladu dyfodol ffyniannus a chynaliadwy.

Mae'r holl weithgareddau wedi'u cysylltu â chwricwla'r Deyrnas Unedig. Gellir eu haddasu i'w defnyddio gyda gwahanol oeddrannau a galluoedd. Gallwch eu defnyddio i lunio dull gweithio traws-gwricwlaidd dros nifer o wythnosau yn y cyfnod cyn Awr Ddaear neu fel sesiynau unigol. Gellir hefyd cysylltu rhai o'r gweithgareddau ag uned waith benodol y byddwch o bosibl yn ei chyflawni yn y misoedd ar ôl Awr Ddaear.

CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

7-11 OED

Lloegr CA2 Celf a Dylunio; Saesneg: Ysgrifennu, Cyfansoddi, Iaith lafar, Mynegi a chyfiawnhau atebion, dadleuon a barn, cymryd rhan mewn trafodaeth, ystyried a gwerthuso safbwyntiau gwahanol; Gwyddoniaeth: Pethau byw a'u cynefinoedd; Daeryddiaeth: daeryddiaeth ddynol a daeryddiaeth ffisegol.

Gogledd Iwerddon CA2 Y Celfyddydau; Saesneg ag Addysg y Cyfryngau; Y Byd o'n Cwmpas: Cyd-ddibyniaeth, symud ac ynni, lle, newid dros amser; Dealltwriaeth Bersonol a Chyd-ddealltwriaeth; dinasyddiaeth, addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth yr Alban P4-P7 Celf; Llythrennedd a Saesneg (gwrando a siarad, ysgrifennu); Gwyddorau: Y Ddaear – Bioamrywiaeth a chyd-ddibyniaeth, ffynonellau ynni a chynaliadwyedd; Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, lle ac amgylchedd.

Cymru CA2 Celf a Dylunio: Dealltwriaeth, ymchwilio a gwneud; Llefaredd Saesneg: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau; Daeryddiaeth: Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau; Gwyddoniaeth: cyd-ddibyniaeth organebau; Y Ddaear gynaliadwy; Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

11-14 OED

Lloegr CA3 Celf a Dylunio: Datblygu creadigrwydd a syniadau; Saesneg: Ysgrifennu at amrywiaeth eang o ddibenion; Saesneg Llafar: Rhoi areithiau byr a chyflwyniadau, mynegi syniadau; Gwyddoniaeth - Bioleg: Rhyngweithiadau a chyd-ddibyniaethau, Perthnasoedd mewn ecosystem; Geneteg ac Esblygiad; Daeryddiaeth: Daeryddiaeth ddynol a daeryddiaeth ffisegol; Dinasyddiaeth: Datblygu sgiliau ymchwilio, trafod a gwerthuso safbwyntiau, cyflwyno dadleuon rhesymedig, gweithredu'n wybodus.

Amcanion Cwricwlwm Gogledd Iwerddon CA3 Y Celfyddydau; Saesneg ag Addysg y Cyfryngau; Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Yr Amgylchedd a Chymdeithas: Datblygu disgyblion fel cyfranwyr at yr economi a'r amgylchedd; Dysgu ar gyfer Bywyd a Gwaith: Democratiaeth a chyfranogiad gweithredol; Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth yr Alban S1 – S3 Celf; Llythrennedd a Saesneg: Gwrando a siarad, ysgrifennu; Gwyddorau: Y Ddaear – Bioamrywiaeth a chyd-ddibyniaeth, ffynonellau ynni a chynaliadwyedd; Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, lle a'r amgylchedd.

Cymru CA3 Celf a Dylunio: Deall, ymchwilio a gwneud; Llefaredd Saesneg: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau; Daeryddiaeth: Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau; Gwyddoniaeth: Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy; Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

GWEITHGAREDD 1:

ADDEWID I'R BLANED 7-11 OED



Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y disgyblion i weld y cysylltiadau rhwng eu gweithredoedd eu hunain a dyfodol ein planed. Ar ôl meddwl am y ffyrdd maen nhw'n gallu mwynhau'r awyr agored, maen nhw'n gwneud addewid i gymryd un cam i warchod y Ddaear.

DEILLIANAU DYSGU

- Bydd y disgyblion yn myfyrio ar y mwynhad a'r cyfleoedd mae gweithgareddau awyr agored yn eu cynnig
- Bydd y disgyblion yn deall y gallwn i gyd gymryd camau i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

ADNODDAU ANGENRHEIDIOL

- Nodiadau gludiog
- Fideo ar y newid yn yr hinsawdd – mae ar gael yma: www.youtube.com/watch?v=gEvmwNoMYEg Mae'r ffilm yn para 1.16 munud.
- Templed deilen – i'w lawrlwytho o wwf.org.uk/ehschoolsresources
- Deunyddiau lluniadu neu beintio

BETH I'W WNEUD

Dechreuwch trwy annog y disgyblion i fyfrio ar y pethau maen nhw'n mwynhau eu gwneud mwyaf yn yr awyr agored. Gyda'ch gilydd, rhestrwch y lleoedd maen nhw'n mynd i dreulio amser yn yr awyr agored. Gallai'r rhain gynnwys yr ardd neu barc lleol, y daith i'r ysgol, iard yr ysgol neu randir, glan y môr neu wersylla, ymweld â fferm ddinesig neu goetir lleol.

Gofynnwch i'r disgyblion, mewn grwpiau o 4, feddwl am yr hyn maen nhw wrth eu bodd yn ei wneud yn yr awyr agored – tasgu dŵr mewn pyllau glaw, rholio i lawr llethrau glaswelltog, gwyllo anifeiliaid, archwilio pyllau dŵr, plannu hadau, dringo coed, dilyn nentydd, chwilio am benbyliaid. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu pob syniad ar nodiadau gludiog a'u harddangos i'r dosbarth cyfan eu gweld.

Ar ôl i'r disgyblion gael cyfle i weld syniadau pawb, dewch ynghyd fel dosbarth a thrafodwch y pethau mae ein planed yn eu rhoi inni eu mwynhau a rhyfeddu atyn nhw. Esboniwch pa mor bwysig yw hi ein bod ni'n gwarchod y Ddaear fel y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r un pethau â ni.

Dangoswch y fideo i'r disgyblion a thrafodwch ddealltwriaeth y plant o ystyr y newid yn yr hinsawdd. Esboniwch fod llawer o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud pob dydd yn defnyddio tanwydd ffosil fel olew, nwy naturiol a glo. Pan fyddwn yn llosgi tanwydd ffosil, caiff carbon deuocsid ei ryddhau i'r atmosffer, gan achosi'r newid yn yr hinsawdd.

Fel y dywed y fideo, mae'r newid yn yr hinsawdd yn ein niweidio ni i gyd. Ond yn ffodus gallwn i gyd wneud rhywbeth yn ei gylch. Mae gennyn ni'r wybodaeth a'r dechnoleg i leihau ein heffaith ar ein planed werthfawr. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ffyrdd y gallan nhw ddefnyddio llai o ynni a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Gallai'r syniadau gynnwys: cerdded neu feicio i'r ysgol, defnyddio llai o ddŵr, gwrthod bagiau plastig, bwyta bwydydd tymhorol neu sydd wedi'u tyfu'n lleol (neu hyd yn oed tyfu'ch bwyd eich hun), arbed arian ar filiau trydan trwy beidio â gadael y set deledu neu gyfrifiadur yn y modd parod, ailgylchu mwy, gwisgo mwy o haenau o ddillad a throi'r gwres i lawr.

Nawr gofynnwch i'r disgyblion addurno deilen, gan ddefnyddio'r templed a ddarperir. Wedyn dylen nhw wneud addewid i'r blaned, gan nodi un newid y byddan nhw'n ei wneud yn eu bywyd i leihau eu heffaith ar y blaned, er enghraifft cerdded i'r ysgol neu ddefnyddio potel dŵr amlbro yn lle rhai plastig tafladwy. Arddangoswch y dail ar goeden ar dir yr ysgol os yw'r tywydd yn dda, neu ar ganghennau y dewch â nhw i mewn i neuadd yr ysgol i greu arddangosfa Awr Ddaear.



Rhannwch lun o'ch arddangosfa gyda ni; bydden ni wrth ein bodd i'w gweld! Anfonwch ef at schools@wwf.org.uk neu trydarwch ef at #EarthHourUK

GWEITHGAREDD 2:

YMGYRCH CADWRAETH OEDRAN 7-11

Yn y gweithgaredd hwn mae'r disgyblion yn dysgu am wahanol rywogaethau anifeiliaid sydd mewn perygl ac yn creu deunydd ar gyfer ymgyrch cadwraeth. Mae'n well os caiff y gweithgaredd hwn ei gyflawni dros nifer o wersi. Gellid arddangos canlyniadau gwaith y disgyblion yn y cyfnod cyn Awr Ddaear i annog teuluoedd a'r gymuned ehangach i ddiffodd eu goleuadau gartref a gwneud addewid i'r blaned.

DEILLIANAU DYSGU

- Bydd y disgyblion yn deall bod y newid yn yr hinsawdd, llygredd a gorddefnyddiaeth yn effeithio ar bobl, bywyd gwylt a lleoedd
- Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau gwaith grŵp
- Bydd y disgyblion yn ymchwilio i faterion amgylcheddol trwy ymagwedd weledol a chreadigol

ADNODDAU ANGENRHEIDIOL

- Taflenni ffeithiau rhywogaethau – i'w lawrlwytho o wwf.org.uk/ehschoolsresources
- Amrywiaeth o ddeunyddiau creadigol, gan ddibynnu ar ffocws y grwpiau (gweler isod)
- Templed ymchwilio i rywogaethau anifeiliaid – i'w lawrlwytho o wwf.org.uk/ehschoolsresources

BETH I'W WNEUD

Trafodwch gyda'r dosbarth y termau 'mewn perygl' ac 'mewn perygl difrifol'. Beth maen nhw'n meddwl yw ystyr y termau? Allan nhw enwi unrhyw rywogaeth sydd mewn perygl? Pa fygythiadau mae'r anifeiliaid hyn yn eu hwynebu? Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar dudalen 5, pwysleiswch na fydd rhai anifeiliaid sydd mewn perygl yn goroesi, o bosibl, y newidiadau mae pobl yn eu gwneud i'r blaned.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar a chyflwynwch y taflenni ffeithiau rhywogaethau iddyn nhw. Esboniwch y byddan nhw'n dewis un rhywogaeth sydd mewn perygl ac yn creu deunydd ymgyrch cadwraeth i ddweud wrth bobl eraill am yr anifail. Dylen nhw ymchwilio i'r anifail gyda'i gilydd a chytuno ar yr hyn sy'n gwneud eu rhywogaeth yn arbennig a pha fygythiadau penodol mae'n eu hwynebu. Atgoffwch nhw fod angen i ran allweddol o'u deunydd ddweud wrth bobl beth allan nhw ei wneud i wneud gwahaniaeth i ddyfodol yr anifail.

Gallwch ganiatáu i grwpiau ddewis fformat eu deunydd ymgyrchu, neu efallai y bydd yn well gennych ganolbwyntio ar un dull sy'n cysylltu â gwaith yr ystafell ddosbarth sy'n cael ei gyflawni eisoes, fel ysgrifennu darbwyllol. Gallai syniadau ar gyfer deunyddiau gynnwys: taflenni a ffeiliau ffeithiau, caneuon, cerddi, posteri, dyluniadau crys T, gemau, neu berfformiadau drama.

Pan fydd y grwpiau wedi cwblhau eu prosiectau gallech greu arddangosfa i'r ysgol gyfan neu gallai'r disgyblion gyflwyno eu gwaith mewn gwasanaeth Awr Ddaear. Mae cyflwyniad gwasanaeth Awr Ddaear ar gael i'w lawrlwytho o wwf.org.uk/ehschoolsresources



GWEITHGAREDD 3:

CYFLEU'R NEGES 11-14 OED

Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i'r disgyblion gyfleu eu meddyliau, syniadau a theimladau am y newid yn yr hinsawdd trwy greu collage mewn grwpiau bach. Fel Gweithgaredd 2, mae'n well os caiff hyn ei gyflawni dros nifer o wersi.

DEILLIANNAU DYSGU

- Bydd y disgyblion yn ymchwilio i fater y newid yn yr hinsawdd trwy ymagwedd weledol a chreadigol
- Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau gwaith grŵp

ADNODDAU ANGENRHEIDIOL

- Detholiad o gylchgronau, papurau newydd, taflenni, llyfrynau a ffotograffau ar-lein – bydd angen casglu'r rhain ymlaen llaw
- Amrywiaeth o ddeunyddiau crefft: siapiau gludiog, papurau lliw, tecstilau ac ati
- Rholyn o bapur wal neu ddarnau mawr o bapur siwgr
- Marcwyr, paentiau, siswrn, glud

BETH I'W WNEUD

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar i chwech ac esboniwch y byddan nhw, yn ogystal â chreu collages, yn canolbwyntio ar sut y gallan nhw gydweithio yn y modd mwyaf effeithiol. Mae Awr Ddaear yn dwyn ynghyd miliynau o bobl o gwmpas y byd mewn un weithred ac mae newid yn digwydd go iawn pan fo pobl yn cydweithio. Gofynnwch i'r disgyblion roi gwahanol rolau i aelodau eu grŵp, er enghraifft: rheolwr adnoddau, amserwr, hwylusydd, cydgordiwr (i greu atmosffer tîm cadarnhaol a sicrhau y caiff llais pawb ei glywed), sylwedydd neu gofnodydd.

Esboniwch wrth y dosbarth y byddan nhw'n cydweithio i greu collage mawr ar thema'r newid yn yr hinsawdd. Dylen nhw feddwl am un neges neu ymadrodd allweddol maen nhw eisiau ei gyfleu yn eu collage. Sut fyddan nhw'n cyflwyno hyn? Atgoffwch nhw ei bod yn bwysig hefyd i'r collages ddweud wrth bobl eraill bod ganddyn nhwythau ran bwysig i'w chwarae wrth frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Wrth i'r disgyblion gynhyrchu eu collages, anogwch nhw i fyfyrion ar sut mae eu grŵp yn cydweithio. Rhowch gyfle iddyn nhw ddatrys unrhyw broblemau eu hunain. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, gofynnwch i'r cofnodwyr o bob grŵp gyflwyno eu collages i weddill y dosbarth, gan esbonio pam eu bod wedi dewis delweddau, geiriau neu doriadau penodol.

Fel dosbarth meddyliwch pa collages oedd yn cyfleu'r negeseuon yn fwyaf effeithiol a pham. A ystyriodd y disgyblion eu dyluniad cyfan yn llawn cyn dechrau neu a newidiodd ef trwy'r broses? Gwnewch yn siŵr y caniatewch amser i'r disgyblion drafod beth oedd yn rhoi boddhad a beth oedd yn heriol ynghylch gweithio yn eu grwpiau. A wnaethon nhw fwynhau eu rôl? Beth fydden nhw'n ei ddewis y tro nesaf? Beth maen nhw wedi'i ddysgu o weithio yn eu grwpiau?



MAE AWR DDAEAR YN DWYN YNGHYD MILIYNAU O BOBL O GWMPAS Y BYD MEWN UN WEITHRED AC MAE NEWID YN DIGWYDD GO IAWN PAN FO POBL YN CYDWEITHIO.

GWEITHGAREDD 4:

YN ÔL I'R DYFODOL 11-14 OED

Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i'r disgyblion gyfleu eu meddyliau, syniadau a theimladau am y newid yn yr hinsawdd trwy greu collage mewn grwpiau bach. Fel Gweithgaredd 2, mae'n well os caiff hyn ei gyflawni dros nifer o wersi.

DEILLIANAU DYSGU

- Bydd y disgyblion yn myfrio ar ba gamau y gellir eu cymryd i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd
- Bydd y disgyblion yn cael eu hannog i gymryd camau gweithredu ymarferol yn eu bywydau eu hunain

ADNODDAU ANGENRHEIDIOL

- Fideo ar y newid yn yr hinsawdd, *Our Future*, a gynhyrchwyd gan y Cenhedloedd Unedig: www.youtube.com/watch?v=8YQIaOldDU8 Mae'r fideo hwn yn para 3.37 munud.
- Deunyddiau lluniadu a phapur


BETH I'W WNEUD

Gofynnwch i'r disgyblion dychmygu bod gwneuthurwyr penderfyniadau heddiw wedi ymateb i'r miliynau o bobl sy'n galw am weithredu ar y newid yn yr hinsawdd trwy Awr Ddaear 2018. Erbyn hyn maen nhw'n byw 50 mlynedd yn y dyfodol, yn y flwyddyn 2068. Mae newid yn yr hinsawdd oherwydd gweithgarwch pobl yn perthyn i'r gorffennol. Gofynnwch i'r disgyblion drafod mewn parau beth fydd yn wahanol yn y dyfodol dychmygol hwn. Pa ynni fydd pobl yn ei ddefnyddio? Sut fydd pobl yn teithio o le i le? Sut fydd y tywydd? Sut fydd ffermio wedi newid? A beth am y rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid sy'n rhannu ein byd?

Dangoswch y fideo a gofynnwch i'r disgyblion sut maen nhw'n teimlo am y weledigaeth hon o'r dyfodol. Nawr, mewn grwpiau o bedwar, gofynnwch iddyn nhw ystyried y ffactorau a arweiniodd at weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn y blynyddoedd dychmygol ers 2018. Dylai pob disgybl ddarlunio un o syniadau ei grŵp gyda chartŵn â chapsiwn. Gweler yr enghraifft gyferbyn. Gallai syniadau eraill gynnwys: pasio deddfau i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd, pobl yn defnyddio ynni gwynt a solar yn hytrach na thanwyddau ffosil,

gwastraffu llai o adnoddau'r ddaear gan fod pobl yn ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, trafniadaeth lân yn dod yn realiti.

Ar ôl i'r holl gartwnau gael eu cwblhau, dylid eu harddangos o gwmpas yr ystafell fel llinell amser. Gofynnwch i'r disgyblion fynd o gwmpas ac edrych ar yr holl syniadau. Fel dosbarth trafodwch waith y disgyblion. Beth maen nhw'n meddwl oedd y ffactorau pwysicaf a arweiniodd at y newid? Pa gamau a gymerwyd gan unigolion a pha rai gan lywodraethau? Ydi'r disgyblion yn teimlo bod 50 mlynedd yn gyfnod rhesymol i sicrhau newidiadau o'r fath? Pam neu pam lai? Yn olaf, myfyriwch ar sut mae'r disgyblion yn teimlo ynghylch gweithredu eu hunain. Atgoffwch nhw y gall camau gweithredu cadarnhaol bach gael canlyniadau pellgyrhaeddol ac y gallwn i gyd chwarae rhan yn y gwaith o warchod ein planed.



Nid oedd tanwyddau ffosil yn cael eu llosgi i greu ynni mwyach.



Rhannwch lun o'ch cartwnau a chapsiynau gyda ni; bydden ni wrth ein bodd i'w gweld! Anfonwch nhw at schools@wwf.org.uk neu trydarwch nhw at #EarthHourUK

GWEITHGAREDD 5: GOHEBU AR Y DYFODOL A CHYSTADLEUAETH GYFFROUS FIRST NEWS! 7-14 OED

Eleni mae WWF yn cydweithio â First News i ledu'r gair am y camau y gallwn i gyd eu cymryd i warchod ein planed.

Rydyn ni'n chwilio am ddau ohebydd ifanc a thrwy gynnig yn ein cystadleuaeth gyffrous, gallai'ch disgyblion fod yn cyflwyno dau fwletin newyddion a ddangosir ar First News Live!

- Bwletin dystopaidd ynghylch sut y bydd y byd, ac anifeiliaid yn benodol, yn dioddef os bydd yn cynhesu 2°C
- Bwletin cadarnhaol cyferbyniol yn edrych ar ynni adnewyddadwy, ceir trydan a sut rydyn ni wedi datrys problemau'r blaned ac achub rhywogaethau trwy gadw'r tymheredd i lawr.

Bydd gohebwy'r Wynebu'r Dyfodol yn codi llais ynghylch y broblem bwysicaf mae ein planed yn ei hwynebu heddiw. Bydd eu hadroddiadau'n cyrraedd mwy na 2 filiwn o bobl ifanc o gwmpas y byd, yn llais nerthol dros weithredu i warchod ein planed.

I gael manylion llawn am y gystadleuaeth a sut i gynnig arni, ynghyd â Thelerau ac Amodau'r gystadleuaeth, ewch i www.wwf.org.uk/ehschoolsresources

Mae'r gweithgaredd hwn, sydd mewn dwy ran, yn rhoi i'r disgyblion fan cychwyn i ddod yn ohebydd Wynebu'r Dyfodol. Gallai fod o gymorth os ydyn nhw eisoes wedi cael y cyfle i gyflawni rhai o'r gweithgareddau eraill yn yr adnodd hwn.

Dylid cyflawni'r gweithgaredd hwn dros nifer o wersi. Bydd athrawon disgyblion 11 - 14 oed yn ei chael o gymorth cysylltu'r gweithgaredd hwn â Gweithgaredd 4.

DEILLIANAU DYSGU

- Bydd y disgyblion yn meithrin eu dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd
- Bydd y disgyblion yn ymarfer ysgrifennu at ddiben
- Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau gwaith grŵp
- Dewis arall: Bydd y disgyblion yn defnyddio sgiliau digidol i wneud eu ffilm eu hunain

ADNODDAU ANGENRHEIDIOL

7 – 11 oed

- Ffotograff Wynebu'r Dyfodol wedi'i ludo yng nghanol darn mawr o bapur siwgr. Lawrlwytho'r ffotograff o www.wwf.org.uk/ehschoolsresources – un copi i gael ei roi i bob grŵp o bedwar i chwech o ddisgyblion
- Fideo esbonio I Don't Get It www.first.news/climatechange
- Dewisol: offer digidol a/neu iPads os ydych yn gwneud ffilm

11 – 14 oed

- Taflen ffotograff Wynebu'r Dyfodol – un copi i bob grŵp o bedwar i chwech o fyfyrwyr – i'w lawrlwytho o www.wwf.org.uk/ehschoolsresources
- Darnau mawr o bapur siwgr
- Siswrn a glud
- Ysgrifbinnau ffelt o wahanol liwiau
- Fideo esbonio I Don't Get It www.first.news/climatechange
- Dewisol: offer digidol a/neu iPads os ydych yn gwneud ffilm

GWEITHGAREDD 5: BETH I'W WNEUD - RHAN 1



7-11 OED

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar i chwech. Gofynnwch i'r disgyblion drafod beth sy'n digwydd yn y llun. Dylen nhw ysgrifennu swigod meddwl i'r plant ar y papur o gwmpas y llun. Mae'r disgyblion yn debyg o gynnig


amrywiaeth o syniadau gwahanol; anogwch nhw i ysgrifennu'r rhain, heb wrthod unrhyw un ohonynt nhw.

Piniwch y darnau papur o gwmpas yr ystafell ddosbarth a gofynnwch i'r disgyblion, mewn parau, symud o gwmpas ac ystyried pob un. Dewch ynghyd unwaith eto ac anogwch y disgyblion i rannu eu meddyliau. Trafodwch y negeseuon mae'r llun yn eu cyfleu. Pa ddarlun o'r dyfodol mae'n ei roi; cadarnhaol, negyddol neu niwtral? Esboniwch fod y llun hwn wedi cael ei ddewis i gynrychioli adroddiadau newyddion Wynebu'r Dyfodol. Pam fyddai'r llun hwn wedi cael ei ddewis, tybed?

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl, mewn parau, am gapsiwn i'r llun ac, unwaith eto, cymharwch yr hyn mae'r disgyblion wedi'i ysgrifennu.

Estyniad

Mewn parau, gallai'r disgyblion ysgrifennu sgwrs bosibl rhwng y ddau blentyn yn y llun, a pherfformio eu deialogau i weddill y dosbarth.



11-14 OED

Argraffwch y daflen ffotograffau fel bod gennych un copi i bob grŵp o ddisgyblion. Gofynnwch i'r myfyrwyr dorri'r ffotograffau allan a'u gludo ar ddarn mawr o bapur, gan adael gofod rhwng pob un.

Nawr gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu hadweithiau a'u sylwadau o gwmpas y lluniau, gan eu nodi gydag ysgrifbin ffelt o un lliw. Gydag ysgrifbin ffelt o liw arall, dylen nhw ysgrifennu'r cysylltiadau rhwng y gwahanol luniau, gan roi saethau lle gallan nhw. Er enghraifft: mae dinistrio coedwigoedd glaw yn arwain at gynhesu byd-eang. Mae hyn yn golygu bod cynefinoedd anifeiliaid yn newid. Mae rhywogaethau fel eirth gwynion o dan fygythiad.

Piniwch y darnau papur o gwmpas yr ystafell ddosbarth a rhowch gyfle i'r disgyblion edrych ar waith y grwpiau eraill. Yna gofynnwch iddyn nhw ddewis, mewn parau, un o'r chwe llun y gellir, yn eu tyb nhw, ei ddefnyddio orau i ysbrydoli pobl i warchod y blaned. Gofynnwch iddyn nhw ddyfeisio capsion i'r llun.

Dewch ynghyd unwaith eto a chymharwch ddewisiadau'r disgyblion o ran lluniau a chapsionau. A gafodd un llun ei ddewis yn amlach nag eraill? Pa mor hawdd oedd hi i bob pâr gytuno ar lun? Gwnwch yn siŵr y caniatewch amser i ymchwilio i deimladau'r myfyrwyr ynghylch y lluniau a'r heriau amgylcheddol. Mae'n bwysig nad ydyn nhw'n teimlo na allan nhw wneud dim yn wyneb mater mor bwysig – a dweud y gwir, bydd cymryd rhan yn Awr Ddaear yn gam pwysig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n planed.

GWEITHGAREDD 5: BETH I'W WNEUD - RHAN 2

7-14 OED

Nawr cyflwynwch y brif dasg i'r myfyrwyr. Dechreuwch trwy wyllo fideo esbonio I Don't Get It www.first.news/climatechange sy'n cyflwyno'r materion.

Anogwch y disgyblion i gymryd nodiadau wrth iddyn nhw ei wyllo. Yna, yn eu grwpiau, gofynnwch iddyn nhw drafod y ffilm a chrynhoi ei phrif neges mewn un frawddeg.

Esboniwch fod y byd heddiw wedi cyrraedd croesffordd a'n bod yn wynebu dewis. Naill ai nid ydym yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a bydd ein planed yn cynhesu 2°C, neu rydym yn cymryd camau cadarnhaol i warchod ein planed a bydd y newid yn yr hinsawdd yn fygythiad sy'n perthyn i'r gorffennol. Fel dosbarth, lluniwch ddau fap meddwl i gynrychioli'r ddau ddyfodol gwahanol hyn.

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw'n mynd i gyflwyno bwletin newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn y dyfodol. Dylen nhw ddewis pa un o'r ddau ddyfodol gwahanol yr hofffen nhw ganolbwyntio arno a chreu, yn eu grwpiau, bwletin newyddion byr yn trafod y newid yn yr hinsawdd. Gall y disgyblion greu blog ysgrifenedig neu fideo unigol i'w gynnig yng nghystadleuaeth Gohebwy'r Wynebu'r Dyfodol ac mae'n bosibl y caiff eu bwletin ei gyflwyno o gwmpas y byd. Ni ddylai adroddiadau ysgrifenedig fod yn hirach na 150 o eiriau ac ni ddylai adroddiadau fideo fod yn hirach na 60 eiliad. Gellir gweld manylion llawn a Thelerau ac Amodau'r gystadleuaeth ar www.wwf.org.uk/ehschoolsresources


AWGRYMIADAU

Dilynwch y dolenni isod i gael awgrymiadau gwyhch gan First News

10 awgrym ar ysgrifennu adroddiad papur newydd

10 awgrym ar gyflwyno papurau newydd i ddarllen yn yr ystafell ddosbarth

10 awgrym ar ffilmio



© NATUREPL.COM / ANUP SHAH / WWF





MYND Y TU HWNT I AWR DDAEAR

Dim ond 60 munud mae Awr Ddaear yn para, ond rydyn ni'n siŵr y bydd eich disgyblion eisiau mynd y tu hwnt i'r awr.

Anogwch nhw i ddarbwylo eu teuluoedd a'u ffrindiau i gymryd rhan yn Awr Ddaear – i ddiffodd y goleuadau gartref a gwneud addewid i'r blaned.

Yn yr ysgol, gallen nhw greu taflenni a phosteri i ddweud wrth bobl am y digwyddiad a'r addewid maen nhw wedi'i wneud, neu wahodd rhieni a'r gymuned leol i wasanaeth Awr Ddaear.

Gartref, gallen nhw fwynhau treulio Awr Ddaear gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn syllu ar y sêr, mynd am dro yn y tywyllwch, adrodd storïau neu ganu caneuon o gwmpas tân neu wrando'n ddistaw gan ryfeddu at synau'r awyr agored.

Gallai gwneud Awr Ddaear yn achlysur arbennig fod yn gam pwysig wrth lunio dyfodol disgleiriach i'n planed ac ni fu adeg bwysicach erioed i gymryd y cam cyntaf hwnnw.

DYWEDWCH WRTHYM NI AMDANI!

Rhannwch eich storïau Awr Ddaear gyda ni; bydden ni wrth ein bodd i'w clywed. Anfonwch nhw at **schools@wwf.org.uk** neu trydarwch nhw at **#EarthHourUK**

TRYDARIAD ENGHREIFFIOL

[Enw'r ysgol] rydyn ni'n cymryd rhan yn #AwrDdaear ar nos Sadwrn 24 Mawrth 2018. Ydych chi? @wwf_uk

Rhannwch eich addewidion Awr Ddaear gyda ni:

Yn Lloegr, @wwf_uk a #EarthHourUK

Yn yr Alban, @WWFScotland a #EarthHourScotland

Yng Nghymru, @WWFCymru a #EarthHourWales neu #AwrDdaear

ANGEN MWY O GYMORTH?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu syniadau neu os hoffech rannu'ch cynlluniau gyda ni, bydden ni wrth ein bodd i glywed oddi wrthych chi.

Cysylltwch â'r tîm ysgolion: **schools@wwf.org.uk**

wwf.org.uk/earthhour



Dros ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

© 1986 symbol y panda ac © "WWF" Nod Masnach Cofrestredig WWF. WWF-UK elusen gofrestrdedig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warant (4016725)